Cynllun strategol y GOC
2011/12 – 2013/14

Rhagair y Cadeirydd

Mae hon yn adeg gyffrous i fod yn Gadeirydd y Cyngor Optegol Cyffredinol. Mae'n wir y bydd unrhyw un sy'n gweithio ym maes iechyd neu reoleiddio yn wynebu heriau sylweddol iawn yn y cyfnod sy'n dod. Mae gwneud hynny mewn hinsawdd economaidd anodd a byth-newidiol ond yn ychwanegu at yr ystyriaethau mae'n rhaid i ni i gyd eu hwynebu.

Rydym wedi cychwyn y daith yn barod. Mae'r strategaeth hon yn disgrifio ble rydym ni am fynd ac yn nodi rhai o'r cerrig milltir pwysicaf am y tair blynedd nesaf. Bydd y cynllun busnes cysylltiedig yn disgrifio'r gwaith manylach y bydd ein staff a'n Prif Weithredwr, Samantha peters, yn ei gyflawni. Gobeithio y bydd o gymorth i chi gael y map hwn wedi ei osod. Fel ag erioed, edrychwn ymlaen at glywed eich barn am y ddogfen hon a manylion ei gweithredu.

Anna Bradley

Cadeirydd

Mae'r ddogfen hon yn pennu nodau strategol y Cyngor Optegol Cyffredinol a sut caiff y rhain eu cyflawni yn ystod y cyfnod tair blynedd 2011/12–2013/14.

Cefndir

Mae'r Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC) yn un o 13 rheoleiddiwr iechyd a gofal cymdeithasol yn y DU. Rydym yn rheoleiddio rhyw 24,000 o optometryddion, optegwyr dosbarthu, myfyrwyr optegol a busnesau optegol.

Yn unol â'r statud mae'r GOC yn gosod safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant optegol, perfformiad ac ymddygiad, yn cymeradwyo cymwysterau sy'n arwain at gofrestru, yn cynnal cofrestr o unigolion sy'n gymwys ac yn addas i ymarfer, hyfforddi neu gynnal busnes fel optometryddion ac optegwyr dosbarthu, ac yn ymchwilio ac yn cymryd camau pan fydd addasrwydd aelodau cofrestredig i ymarfer, hyfforddi neu gynnal busnes efallai'n ddiffygiol.

Y cyd-destun

Mae'r GOC yn gweithredu mewn amgylchedd sy'n cynnig nifer o heriau yn ogystal â chyfleoedd. Wrth ddatblygu'n strategaeth, rydym wedi ceisio alinio'n cryfderau er mwyn manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael, a datblygu cynlluniau i ddiwallu'r heriau yn yr amgylchedd. Yn rhan annatod o'r strategaeth y mae rheoli risgiau rhagweladwy.

Nodweddion yr amgylchedd allanol yw:

Tirlun gwleidyddol newydd

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i leihau baich rheoleiddio, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd lym sydd ohoni (gweler isod). Mae eisoes wedi canslo'r trefniadau am system ddyfarnu newydd, wedi uno rhai rheoleiddwyr ac wedi herio'r lleill i weithio'n agosach â'i gilydd. Mae'n gwbl bosibl y bydd y Llywodraeth, maes o law, yn annog uno pellach.

Yn y cyd-destun hwn mae'n hanfodol bwysig ein bod yn canolbwyntio ar ein busnes craidd. Mae hyn y golygu meddu ar ddealltwriaeth gryf a thrylwyr o'r sector rydym yn ei reoleiddio, gan mai dyma'r ddealltwriaeth sy'n cyfiawnhau bodolaeth rheoleiddiwr arbenigol. Mae'n golygu hefyd bod rhaid i ni sicrhau ein bod yn cymhwyso'r hyn a elwir gan ein corff goruchwylio, Y Cyngor er Rhagoriaeth wrth Reoleiddio Iechyd, rheoleiddio 'cyffyrddiad cywir'.

Yn olaf, le bo'n bosibl ac yn briodol, rydym yn chwilio am synergeddau a chyfleoedd i gydweithredu ag eraill ym maes rheoleiddio iechyd. Bydd hyn yn helpu i sicrhau ein bod yn gost-effeithiol ac yn effeithlon, ac yn cael ein gweld fel bod yn berthnasol gan ein rhanddeiliaid allweddol.

Mae ailstrwythuro'r GIG yn Lloegr yn arwyddocaol i'r GOC am ei fod yn newid y drefn gomisiynu ar gyfer gwasanaethau optegol yn Lloegr ar adeg ysgrifennu'r cynllun hwn. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn cadw cyflymder â'r newidiadau ac yn ymateb iddynt a/neu yn ceisio eu siapio mewn ffyrdd sydd fwyaf priodol am reoleiddio sectorol yn y dyfodol.

Yn olaf, mae Ewrop yn parhau yn ystyriaeth o bwys, yn enwedig o ystyried y cynnydd mewn mudo trawsffiniol. Mae'n bwysig ein bod yn ymgysylltu â'r awdurdodau priodol yn Ewrop ynghylch safonau optegol, a'n bod yn gallu dylanwadu ac arwain datblygiad a gweithrediad y safonau hyn.

Hinsawdd economaidd anodd

Mae'r hinsawdd economaidd yn dod ag amryw o heriau i'r GOC, ein rhanddeiliaid a'n haelodau cofrestredig. Yn benodol mae risg y bydd materion diogelwch yn cynyddu o ganlyniad i bwysau cost, ac y bydd ein hincwm yn lleihau o ganlyniad i grebachiad y farchnad am wasanaethau optegol.

O ran risg iechyd a diogelwch, bydd pwysau am i lawr ar gostau cynhyrchion a gwasanaethau optegol, a dimensiwn ychwanegol gwasanaethau ar y rhyngrwyd. Gall hyn roi pwysau ar ein haelodau cofrestredig, a fydd efallai'n ei chael yn anos rhoi gofal llygaid o ansawdd mor uchel i'w cleifion.

Yn ogystal, efallai y bydd cleifion yn dewis peidio â chael profion llygad neu ofyn am gyngor proffesiynol am broblemau golwg am na allant eu fforddio, a allai arwain at fwy o broblemau iechyd difrifol yn codi.

Mae risg ariannol i'r GOC y gallai rhai aelodau cofrestredig ei chael yn anodd aros mewn busnes, neu fusnesau optegol sy'n gorfod uno neu gyfuno ymhellach. Byddai lleihad yn y sylfaen gofrestredig yn arwain yn anochel at farchnad swyddi lai o faint i aelodau cofrestredig presennol a rhai'r dyfodol, gan arwain at lai o fyfyrwyr yn dewis dod i mewn i'r proffesiwn am fod llai o gyfleoedd gwaith a ffioedd dysgu uwch.

Gallai lleihau a dwysáu'r farchnad am wasanaethau optegol arwain hefyd at ddiffyg dewis i gleifion neu at wasanaethau ansawdd is.

Poblogaeth sy'n heneiddio

Mae poblogaeth sy'n heneiddio yn debygol o gynyddu'r angen am wasanaethau optegol ac fe allai arwain at fwy o gleifion â phroblemau iechyd llygaid risg uwch. Gallai hyn arwain at alwadau i ehangu neu fel arall newid cwmpas arfer gweithwyr optegol proffesiynol, er enghraifft cyflwyno mwy o wasanaethau optegol yn y gymuned neu mewn cyd-destunau cartref.

Wrth i'r proffesiynau a'u gwasanaethau newid, bydd y risgiau a reolwn yn newid a rhaid i'n safonau addysg, ymddygiad a pherfformiad i aelodau cofrestredig addasu. Yn benodol, byddai angen i weithwyr proffesiynol fodloni'r ddemograffeg newidiol, a byddai'n rhaid i safonau gofal llygaid addasu er mwyn sicrhau bod gofal diogel ansawdd uchel yn cael ei roi i'r grŵp hwn o gleifion sy'n haws eu niweidio.

Defnydd cynyddol ar y rhyngrwyd a thechnoleg wrth ddarparu gwasanaethau

Gallai defnydd cynyddol ar dechnoleg newid sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu, gan gynnwys eu darparu mewn amgylchedd ar-lein. Mae defnyddio'r we yn gyfrwng darpariaeth yn codi cwestiynau newydd am sut i sicrhau diogelwch y cyhoedd a chleifion. Efallai y bydd angen addasu'n safonau. Hefyd gall fod angen newidiadau i ddeddfwriaeth, ac i sicrhau mai dim ond y sawl sydd wedi eu hyfforddi a'u rheoleiddio'n briodol sy'n darparu'r gwasanaethau hyn.

Gall y rhyngrwyd arwain at gleifion a defnyddwyr mwy gwybodus ac felly mwy taer. Bydd defnyddwyr mwy gwybodus a mwy taer yn cynyddu disgwyliadau safonau gofal a gwasanaeth, ac o bosibl yn codi lefelau anfoddhad, a fynegir drwy gwynion.

Gall y GOC fanteisio ar ddefnydd cynyddol gwasanaethau electronig a'r gofyniad i'w darparu drwy sefydlu systemau integredig a symud i ffwrdd o ddulliau cofrestru a chyfathrebu sy'n seiliedig ar bapur.

Mae gan hyn y potensial i wella ansawdd a chyflymder y gwasanaeth a gynigiwn i aelodau cofrestredig, a hefyd sicrhau olrhain yn well aelodau cofrestredig sydd wedi eu barnu'n risg i'r cyhoedd. Bydd dulliau talu cyflymach hefyd yn sicrhau bod prosesau ariannol yn gywir, a bydd systemau cyfathrebu electronig yn cadw costau a ffioedd cofrestru i lawr.

4

Ein cenhadaeth

Ein swyddogaeth statudol yw 'amddiffyn, hyrwyddo a chynnal iechyd a diogelwch' aelodau o'r cyhoedd. Rydym yn dehongli'n cenhadaeth fel:

Sicrhau iechyd ac amddiffyniad y sawl sy'n defnyddio gwasanaethau optometryddion ac optegwyr dosbarthu

Ein gweledigaeth

...yw cael ein gweld yn **Arwain ym maes rheoleiddio**

Mae'r GOC yn benderfynol o ymateb yn effeithiol i'w pwysau sylweddol am newid yn y ffordd y rheoleiddir proffesiynau iechyd.

Nid yw'n fwriad gennym aros i rywun ddweud wrthym sut a beth i'w newid. Yn hytrach rydym am gyrraedd yno'n gyntaf, adeiladu ar arfer da o'n hamgylch ac achub y blaen lle mae modd, er mwyn dod yn enghraifft o arfer da a gydnabyddir gan eraill yn ein maes.

Nodau strategol

Mae ein nodau strategol yn llifo o'n gweledigaeth ynghyd ag asesiad o'n cryfderau a'n gwendidau ein hun fel corff. Yn y gorffennol nid oedd y GOC, ynghyd â rheoleiddwyr iechyd eraill, yn gyfarwydd â gorfod addasu a newid yn gyflym, ond bu'n rhaid i hynny newid, yn enwedig yn y ddwy flynedd diwethaf.

Erbyn hyn mae gennym drefniadau llywodraethu newydd a mwy strategol, rheoliadau ariannol cryfach, gwell ymgysylltu â rhanddeiliaid, uwch dîm sydd wedi ei ailstrwythuro a phrosesau gwell, drwy gyflwyniad pethau fel cadw aelodau ar-lein.

Mae'r amgylchedd newydd yn codi rhai heriau i ni. Rydym wedi nodi pedwar nod strategol allweddol a fydd yn ein barn ni yn sicrhau ein bod yn ymdrin â'r heriau a chyfleoedd mewnol ac allanol ac yn symud yn agosach at ein gweledigaeth yn ystod y tair blynedd nesaf:

- **gallu strategol rhagorol**
- **cysylltiadau cryf â rhanddeiliaid**
- **prosesau integredig a symleiddiedig**
- **diwylliant a hunaniaeth gyffredin**

Yn y tudalennau sy'n dilyn rydym yn esbonio pam rydym wedi dewis y nodau hyn, ble rydym ni nawr a'r hyn y gobeithiwn ei gyflawni yn y tair blynedd nesaf. Er mwyn i ni lwyddo, mae rhai pethau mae angen i ni eu gwneud. Ein henw ar y rhain yw'r ffactorau llwyddiant hanfodol. Fe'u nodi yn Ffigur 1 a'u disgrifio'n llawnach yn y testun sydd ynghlwm.

Perthynas rhwng nodau strategol a ffactorau llwyddiant hanfodol

Mae manylion y ffactorau llwyddiant hanfodol yn y cylchoedd sydd o amgylch y nodau strategol. Mae lliw canol pob cylch yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'i nod strategol cyfatebol, ac mae codau aml-liw pob cylch allanol yn adlewyrchu'r ffaith bod y ffactorau llwyddiant hanfodol yn ymwneud â mwy nag un nod strategol, ac yn helpu i gyflawni mwy nag un.



Ffigur 1: Perthynas rhwng nodau strategol a ffactorau llwyddiant hanfodol

- **Cysylltiadau cryf â rhanddeiliaid**
- **Gallu strategol rhagorol**
- **Prosesau integredig a symleiddiedig**
- **Diwylliant a hunaniaeth gyffredin**


Prosesau mewnol un cyffyrddiad
Prynu allanol a/neu gydweithrediad priodol
Prosesau integredig a symleiddiedig
Cenhadaeth
Diwylliant a hunaniaeth gyffredin
Prosesau rheoleiddio effeithiol, cyflym a chysylltiedig
Adborth cadarnhaol gan staff a'r Cyngor
Gweledigaeth gyffredin a ddeallir

OR 1
FOR
LESS

1. Gallu strategol rhagorol

Pam: Y rhesymeg tu ôl i reoleiddwyr iechyd ar gyfer proffesiynau penodol yw rheoleiddio sy'n sensitif i anghenion gwahanol pob sector iechyd. Rhaid i rheoleiddiwyr arbenigol ddeall ac ymateb i'r ystyriaethau yn eu sector hwy mewn modd sensitif a phriodol.

Ble rydym ni nawr: Credwn fod angen i ni gryfhau ein cynhwysedd a'n gallu. Rydym wedi creu ffocws ar gyfer y gwaith hwn yn Swyddfa newydd y CEO, sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r CEO ac yn llywio gwaith cynllunio strategol y Cyngor.

Ble rydym ni eisiau bod: Mae arnom angen dealltwriaeth gryf sy'n datblygu'n gyson o'r hyn sy'n digwydd yn y sector, y pwysau sydd arno, galwadau cleifion a chwsmeriaid a'r problemau a wynebir gan ymarferwyr.

Mae angen i ni wrando ar drafodaethau ynghylch dyfodol rheoleiddio iechyd a chyflwyno gofal optegol yn y dyfodol. Hefyd mae angen i ni ddeall sut mae rheoleiddiwyr iechyd erail y gweithredu yn y DU ac o amgylch y byd. Mae angen cyfuno'r ddealltwriaeth hon â gallu i ddadansoddi'n rhagweithiol ac ymateb i'r materion allweddol.

Bydd y ddealltwriaeth ddwfn hon a'r gallu i ymateb yn gyflym yn caniatáu i'r GOC bennu'r safonau gofal ac ymddygiad priodol a mynd ati i hyrwyddo newidiadau polisi cyhoeddus lle bo angen.

Y ffactorau llwyddiant hanfodol yw:

- edrych ymlaen
- gafael yn nhystiolaeth a'i defnyddio
- dylanwadu ar bolisi cyhoeddus

2. Cysylltiadau cryf â rhanddeiliaid

Pam: Rydym yn gorff buddiant cyhoeddus, sy'n atebol i'r Senedd ac i'r cyhoedd am gyflawni ein cenhadaeth. Mae'n hanfodol i ni ddeall barn gwahanol grwpiau rhanddeiliaid am faterion optegol a'u goblygiadau ar gyfer rheoleiddio. Mae ymdeimlad rhanddeiliaid am y materion hefyd yn cynnig golwg a gwybodaeth i lywio'n dealltwriaeth ni o'r sector. Ni fyddwn bob amser yn gallu neu'n gwneud yr hyn mae rhanddeiliaid ei eisiau, ond fe ddylai deall ac ymateb i'r materion hynny lywio'n hymagwedd ni at reoleiddio a bydd yn ein helpu i fynd â'n rhanddeiliaid gyda ni, hyd yn oed os cytunwn i anghytuno. Mae ymgysylltu o'r fath hefyd yn sail i gynghreiriau lle bo'n briodol.

Ble rydym ni nawr: Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ffocws ers dwy flynedd bellach ac mae camau breision wedi eu cymryd. Rydym wedi sefydlu dau Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid – un ar gyfer aelodau cofrestredig a'r llall ar gyfer y cyhoedd a chleifion.

Mae'r grwpiau hyn eisoes yn gwneud gwahaniaeth i'n gwaith drwy eu mewnwelediad a'u cyngor. Rydym wedi sefydlu portffolio ehangach o drefniadau ymgynghorol, a gynhwysodd sioe deithiol yn ystod 2010 am ail-ddilysu a CET.

Ble rydym ni eisiau bod: Rydym am ymgysylltu'n rheolaidd ac yn briodol mwn ffyrdd sy'n diwallu'n hanghenion ni ac sydd hefyd yn addas i'n holl randdeiliaid gwahanol. Rydym yn arbennig o ymwybodol o'r cyfyngiadau amser ar lawer o gyrff trydydd sector a chyffredinol, ac o'r angen i ymgysylltu â phobl mewn ffyrdd sy'n cyd-fynd â'r amser sydd ganddynt i'w roi.

Rydym am wneud yn siŵr na ddaw ddim yn syndod i'r sawl sy'n ymddiddori yn ein gwaith, trwy raglen well o gyfathrebu rheolaidd, yn ogystal ag ymgysylltu.

Yn y pen draw, hoffem i'n rhanddeiliaid deimlo eu bod yn cymryd rhan briodol ac yn gallu deall a pharchu'r penderfyniadau rydym wedi eu gwneud, os nad cytuno â hwy.

Y ffactorau llwyddiant hanfodol yw:

- deall materion rhanddeiliaid
- cysylltiadau â chyrff buddiant cleifion a'r cyhoedd
- adborth cadarnhaol gan randdeiliaid

3. Prosesau integredig a symleiddiedig

Pam: Mae'r galw am effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth reoleiddio ac am wasanaeth gwell i gwsmeriaid i gyd yn pwyntio at yr angen i'r GOC weithredu mor effeithlon ac effeithiol â phosibl. Byddwn yn darparu gwasanaeth rhagorol i'n haelodau cofrestredig ac yn cadw costau i lawr.

Ble rydym ni nawr: Mae'r GOC wedi tan-fuddsoddi ers blynyddoedd lawer. Mae hyn yn rhywbeth rydym wedi dechrau mynd i'r afael ag ef, gyda datblygiadau fel cadw ar-lein a phrosesau symlach o ran addasrwydd i ymarfer. Mae gennym amrywiaeth o systemau TG o hyd a ddatblygwyd yn annibynnol ac sy'n methu cyfathrebu â'i gilydd ar hyn o bryd.

Ble rydym ni eisiau bod: Rydym yn trafod cynlluniau am fuddsoddiad sylweddol mewn TG newydd a fydd yn caniatáu i ni ystwytho'n gwaith a chysylltu prosesau mewnol. Bydd hyn yn lleihau dyblygu ymdrech a'r lle am wallau a hefyd yn creu arbedion sylweddol yn y dyfodol.

Yn rhan o'r rhaglen hon byddwn yn prynu system rheoli achosion i wneud ein gweithrediadau'n fwy effeithlon ac effeithiol. Y nod yw rhoi'r mwyafrif o'r systemau hyn ar waith yn ystod 2011/12.

Ein huchelgais yw nid yn unig dal i fyny ond bod ar flaen y gad. Byddwn yn gweithredu cynlluniau er mwyn bod yn rheoleiddiwr yr 21ain ganrif gan ganolbwyntio ar y gwaith y gallwn ei wneud orau, rhannu trefniadau â chyrff eraill lle bo'n gwneud synnwyr gweithio gyda'n gilydd, a phrynu o ffynhonnell allanol lle gall hyn sicrhau'r hyn mae ei angen yn fwy effeithlon ac effeithiol.

Y ffactorau llwyddiant hanfodol yw:
- prosesau mewnol un cyffyrddiad
- prynu o'r tu allan a/neu gydweithio yn briodol
- prosesau rheoleiddio effeithlon, cyflym a chysylltiedig

4. Diwylliant a hunaniaeth cyffredin

Pam: I gyflawni hyn oll bydd angen i staff, rheolwyr a'r Cyngor weithio fel un tîm, bob un yn chwarae ei ran. Bydd angen i ni ddysgu i weithio'n wahanol, gan ddod ynghyd tu ôl i'n gweledigaeth a'n nodau strategol.

Ble rydym ni nawr: Rydym wedi cynnal adolygiad yn ddiweddar o'n strwythurau, gweithdrefnau, polisïau, tâl ac amodau. Mae'r corff bellach wedi ei strwythuro mewn tair cyfarwyddiaeth sy'n dod â gweithgareddau tebyg ynghyd, gan greu'r cyfle am fwy o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd:

- Swyddfa'r CEO
- Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Rheoleiddio
- Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Corfforaethol

Mae'r berthynas weithiol rhwng y Cyngor a'r weithrediaeth wedi cael ei chryfhau:

- trwy well adrodd a monitro perfformiad a fydd, maes o law, yn llifo drwodd i amcanion staff unigol
- gwell rheolaeth ar risg a fydd yn rhan gynhenid o reolaeth feunyddiol ac yn cael ei monitro'n rheolaidd gan y Pwyllgor Archwilio
- Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog clir sydd wedi eu cytuno, gan sicrhau priodoldeb yn y ffordd y gwnawn ein gwaith.

Ble rydym ni eisiau bod: Wedi pennu ein strategaeth a'n hymagwedd newydd, mae gennym gryn waith i wneud i gytuno ar oblygiadau hyn ar gyfer y ffordd rydym yn gweithio gyda'n gilydd a chydag eraill. Mae angen datblygu ymdeimlad cyffredin o werthoedd ar sail ein cenhadaeth a'n gweledigaeth, ac integreiddio hyn yn ein gwaith arfarnu, hyfforddi a datblygu.

Rydym am i staff deimlo eu bod wedi eu grymuso i wneud penderfyniadau a/neu argymhellion yn y gwaith maent yn gyfrifol amdano ac am i'r Cyngor deimlo ei fod yn rhan lawn o waith y sefydliad. I gyflawni hyn bydd yn ofynnol nodi a symud unrhyw rwystrau.

Y ffactorau llwyddiant hanfodol yw:
- gweledigaeth sy'n cael ei rhannu a'i deall
- adborth cadarnhaol gan staff a'r Cyngor

Strategaeth a chynlluniau ariannol

Ein bwriad yw sicrhau ein bod yn gweithredu'n effeithlon. Daw bron ein holl incwm o ffioedd cofrestru - yn aelodau proffesiynol, myfyrwyr a chorfforaethol. Er bod rhai elfennau gwariant fel cyflogaeth a gorbenion sefydlog yn gymharol hawdd eu rhagweld, mae elfennau eraill, e.e. ffioedd cyfreithiol, yn anodd eu darogan yn gywir. Ymdrechwn i sicrhau eu bod yn cael eu rheoli a'u lleihau, a defnyddiwn adnoddai allanol (drutach) yn ddoeth.

Rydym wedi gweithio i leihau costau ac archwilio pob cyfle am arbedion, ar yr un pryd â sicrhau ein bod yn cyflawni'n swyddogaethau statudol. Y ffi ar gyfer 2011/12 yw £270 am bob aelod cofrestredig sydd wedi cymhwyso'n llawn a chyrff corfforaethol. Rydym hefyd wedi cwmpasu chwyddiant a'r codiad mewn TAW yn y ffigur hwn. Yn ogystal, gan gydnabod yr hinsawdd economaidd anodd a'i heffaith ar rai o'n haelodau cofrestredig, rydym hefyd wedi lleihau'r ffi i £170 ar gyfer y sawl ag incwm o £12,000 neu lai sy'n cofrestru.

Credwn fod gennym reolaeth ddigonol dros ein costau i allu cadw'r ffioedd ar y lefelau presennol am hyd y cynllun hwn. Fodd bynnag, ni allwn reoli digwyddiadau allanol, a bydd angen edrych ar ffioedd arfaethedig o'r newydd bob blwyddyn, ar sail y costau arfaethedig am y flwyddyn dan sylw.

Er mwyn rheoli amrywiadau o flwyddyn i flwyddyn o ran gwariant annarogan fel ffioedd cyfreithiol, mae gennym gronfa arian wrth gefn. Ein polisi presennol am yr arian wrth gefn yw cael gwerth tri mis o wariant blynyddol. Cedwir llygad gofalus ar hyn yn gyson i sicrhau ei briodoldeb.

Byddwn yn ategu adnoddau craidd presennol gan ddefnydd doeth ar ymgynghorwyr allanol ar gyfer prosiectau pwrpasol ar wahân lle nad oes yr arbenigedd yn fewnol. Awn ar drywydd cyfleoedd pellach am fwy o effeithlonrwydd ariannol gan gynnwys prynu o ffynonellau allanol, lle bynnag y bo'n briodol.

Cysylltu â ni

Ysgrifennwch at:

Y Cyngor Optegol Cyffredinol
41 Harley Street
Llundain
W1G 8DJ

Ffôn: 020 7580 3898
Ffacs: 020 7307 3939
Gwefan: www.optical.org
E-bost: goc@optical.org